# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Adroddiad Cynnydd ar Ansawdd yr Aer 2016 ï Crynodeb Gweithredol

Er cyflawniad Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995
I Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol

Ionawr 2017

# Crynodeb Gweithredol

Mae’r adroddiad hwn yn cyflawni gofynion proses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol fel y’i gosodwyd yn Rhan IV Deddf yr Amgylchedd (1995), Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon 2007 a’r dogfennau perthnasol o ran Polisi a Chanllawiau Technegol.

Mae proses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yn gosod gorfodaeth ar holl awdurdodau lleol i adolygu ac asesu ansawdd aer yn rheolaidd yn eu hardaloedd, a phennu a yw nodau ansawdd yr aer yn debygol o gael eu cyflawni. Os ystyrir bod gormodiant yn debygol, rhaid i’r awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer a pharatoi Cynllun Gweithredu Ansawdd yr Aer yn gosod allan y mesurau y mae’n bwriadau eu rhoi mewn lle er mwyn ymlid y nodau. Gan fod gormodiant wedi ei ganfod yn ardal Heol Twynyrodyn, cafodd asesiad manwl ei gyflawni ym mis Tachwedd 2015; ac ar 30 Ionawr 2017 cafodd Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer ei chyhoeddi. Mae Cynllun Rheoli Ansawdd yr Aer yn cael ei baratoi ar gyfer ymgynghoriad.

Dynododd tiwbiau trylediad fod lefelau nitrogen deuocsid i’w canfod ar safleoedd o gwmpas Heol Twynrodyn sy’n rhagori ar gymedr blynyddol Nod Ansawdd yr Aer yn debyg i ganlyniadau yn 2014. Rhagwelir, pan fydd mesurau i leihau prysurdeb y traffig a gwella llif y traffig ar Heol Twynyrodyn wedi eu gosod yn eu lle, y bydd crynodiadau $NO_2$ yn lleihau, gyda’r nod o gyflawni crynodiadau na fyddant yn fwy na $36\mu g/m^3$.

Ceir dau ddatblygiad sydd â’r potensial i effeithio ar ansawdd aer. Yn gyntaf, mae model wedi ei gyflawni fel rhan o’r cais cynllunio i adeiladu gorsaf fysiau newydd ar Stryd yr Alarch. Y mae’n dynodi y bydd cydsynio â Nod Ansawdd yr Aer $NO_2$ . Mae’n defnyddio tiwb trylediad 6 mis, fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys llai na 3 mis o ddata gaeaf. Bwriad CBSMT yw cadarnhau’r rhagolygon a wnaed gan y model gan ddefnyddio tiwbiau trylediad pan fydd yr orsaf fysiau yn dechrau gweithredu. Yn ail, mae gwaith adeiladu datblygiad manwerthu Melinau Trago Mills yn mynd rhagddo. Mae datblygiadau tebyg yn Ne-orllewin Lloegr wedi arwain at dagfa a chynnydd mewn $NO_2$ unwaith y bydd yn cael ei ddefnyddio. Bydd tiwb trylediad yn cael ei agor ar Heol Abertawe i fonitro hyn.